Cylchlythyr Gwanwyn/Haf 2011

Newyddion yn yr UE

Cynnwys

Tudalen 1 Newyddion yn yr Undeb Ewropeaidd

Tudalen 2-3 Beth mae Europe Direct Wrecsam wedi bod yn ei wneud?

Tudalen 4 Teithio yn Ewrop

Tudalen 5 Diwrnod Ewrop, Y Senedd Ewropeaidd

Tudalen 6 Ewrop i Ferched. Yn lachach Gyda'n Gilydd yn yr Undeb Ewropeaidd

Llywyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd ym mis Mehefin 2011

Bob chwech mis mae gwahanol aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd yn dod yn gyfrifol am y Llywyddiaeth ac yn llywyddu gwaith Cyngor yr Undeb Ewropeaidd. Ar yr un pryd mae'r wladwriaeth sydd â'r Llywyddiaeth yn cynnal y mwyafrif o ddigwyddiadau'r Undeb ac yn chwarae rhan allweddol ymhob un o feysydd gweithredu'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n gyfrifol am drefnu cyfarfodydd yr UE, yn gosod cyfeiriad gwleidyddol yr Undeb ac yn sicrhau ei ddatblygiad, ei integreiddiad a'i ddiogelwch. O 1af Gorffennaf 2011 bydd Gwlad Pwyl yn cynnal y Llywyddiaeth yng Nghyngor yr Undeb Ewropeaidd.

Beth yw prif dasgau'r Llywyddiaeth?

Mae tasgau'r Llywyddiaeth wedi'u canolbwyntio ar y tri maes allweddol. Y cyntaf yw gwneud gwaith Cyngor yr UE a'i gyrff ategol, mae'r ail yn ymwneud â chynrychioli Cyngor yr UE yn ei ymwneud â sefydliadau eraill yr UE, ac mae'r trydydd yn ymwneud â chynrychioli'r UE mewn cysylltiadau rhyngwladol (gyda chyrff rhyngwladol a thrydydd gwledydd).

Gwybodaeth am Ddiwylliannau Ewropeaidd

Bob blwyddyn, dewisir dinasoedd i fod yn Brifddinasoedd Diwylliant Ewrop – sef Talinn (Estonia) a Turku (Ffindir) yn 2011 – ac mae'r rhain yn dystiolaeth byw o gyfoeth ac amrywiaeth diwylliannau Ewrop.

Ers ei sefydlu yn 1985, mae'r fenter wedi dod yn un o'r digwyddiadau diwylliannol mwyaf mawreddog ac uchel ei broffil yn Ewrop.

Mae mwy na 40 o ddinasoedd wedi'u dynodi'n Brifddinasoedd Diwylliant Ewrop hyd yn hyn, o Stockholm i Genoa, o Athen i Glasgow, ac o Cracow i Porto.

Nid yw dinas yn cael ei dewis yn Brifddinas Diwylliant Ewropeaidd oherwydd yr hyn ydyw yn unig. Y prif reswm y caiff ei dewis yw am yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud yn y flwyddyn, ac mae'n rhaid i hwnnw fod yn eithriadol. Mae'n rhaid i'w rhaglen ar gyfer y flwyddyn gyflawni rhai meini prawf penodol.

Cyngor yr Undeb Ewropeaidd yw'r unig gorff sy'n gallu dyfarnu teitl Prifddinas Diwylliant Ewrop.

O 2011, bydd dwy brifddinas – o ddwy wlad wahanol yn yr UE – yn brifddinasoedd Diwylliant Ewrop bob blwyddyn.

Mae'r drefn ar gyfer dewis dinas yn cychwyn oddeutu chwe blynedd o flaen llaw, er bod trefn yr Aelod-wladwriaethau sydd â'r hawl i gynnal y digwyddiad wedi'i gosod cyn hynny ac mae wedi'i drefnu mewn dau gam. Mae'n cynnwys panel o arbenigwyr annibynnol yn y maes diwylliannol sy'n gyfrifol am asesu'r cynigion. Unwaith y dewisir Prifddinasoedd Diwylliant Ewrop, mae Cyngor yr Undeb Ewropeaidd yn monitro eu paratoadau.

Ceir newydd â goleuadau sydd ymlaen yn ystod y dydd

Yn 2011 bydd Goleuadau sydd Ymlaen yn y Dydd (DRL) i'w cael ar bob car cludo teithwyr newydd a phob fan ddosbarthu fach newydd. Bydd tryciau a bysiau'n cael yr un peth 18 mis yn ddiweddarach, ym mis Awst 2012.

Mae goleuadau DRL yn lampau arbennig sy'n dod ymlaen yn awtomatig pan fo'r peiriant yn tanio. Y disgwyl yw y byddent yn gwneud y ffordd yn fwy diogel am eu bod yn gwneud cerbydau modur yn llawer haws eu gweld i bobl eraill sy'n defnyddio'r ffordd. Maent hefyd yn defnyddio ynni ar gyfradd isel o'i gymharu â phrif oleuadau wedi'u gostwng, Mewn gwledydd lle mae DRL yn orfodol yn barod mae pobl wedi'i alw'n ddatblygiad positif iawn ym maes diogelwch y ffordd.

Blwyddyn Wirfoddoli Ewropeaidd 2011

Beth mae Ewrop Uniongyrchol Wrecsam wedi bod yn ei wneud?

Diwrnod Lansio NSA Ynni Cynaliadwy a'r Amgylchedd

Daeth Ewrop Uniongyrchol Wrecsam i Techniquest i helpu gyda "Diwrnod Lansio NSA yr Amgylchedd ac Ynni Adnewyddadwy" ar Ddydd Iau Mawrth 3ydd, a gynhaliwyd gan Techniquest Glyndŵr mewn partneriaeth â Phrifysgol Glyndŵr ac Ewrop Uniongyrchol Llangollen.

Roedd y digwyddiad wedi'i fwriadu ar gyfer myfyrwyr Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) o amgylch Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych.

Yn ystod y bore bu cwmnïau lleol megis Gorsaf Bŵer Fiddlers Ferry, UPM – Papur Shotton ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn rhoi cyflwyniadau i esbonio eu hymdrechion i ostwng eu hôl-troed carbon.
Yna bu myfyrwyr yn cymryd rhan mewn tri gweithdy ymarferol 40 munud ar Gynhyrchu Trydan, Ceir wedi'u Pweru gan yr Haul ac Ymchwilio'r Atom. Roedd y rhain yn dysgu rhagor iddynt am Ynni Cynaliadwy a'r Amgylchedd.

Gweithdai Ysgolion Cynradd

Bu Ewrop Uniongyrchol Wrecsam a Llangollen yn cynnal gweithdai yn Ysgol Bryn Coch, Yr Wyddgrug ac Ysgol Frongoch, Dinbych.
Gwahoddwyd y gwesteion arbennig Georgina o Barcelona a Veronique o Bordeaux i ddysgu'r plant am eu gwledydd. Roedd y plant wedi paratoi cwestiynau hefyd i'w gofyn i'r gwesteion arbennig am eu bywyd yn Sbaen a Ffrainc.
Cafwyd gweithgareddau eraill oedd yn cynnwys cyflwyniad am Ewrop a thrafodaeth o amgylch map llawr mawr ar y thema "Beth yw Ewrop?" Hefyd gofynnwyd i blant gyfateb baneri a gwrthrychau enwog gyda'r gwledydd perthnasol. Cynhaliwyd cwis tîm gyda gwobrau i gloi'r sesiynau.

Cymru, Ewrop a'r Byd

Ym mis Mawrth daeth Ewrop Uniongyrchol Wrecsam a Llangollen i'r digwyddiad hwn a drefnwyd gan CILT Cymru a Llwybrau at Ieithoedd.
Diben y digwyddiad oedd rhoi cyfle i bobl ifainc 14-19 oed gymryd rhan mewn gwahanol weithdai yn ystod y dydd gyda'r bwriad o ysbrydoli'r bobl ifainc i flasu ieithoedd newydd, dysgu am ddiwylliannau newydd a lledu eu gorwelion. Roedd hefyd yn tynnu sylw at gysylltiadau Ewropeaidd a byd-eang Cymru fyddai'n gallu helpu disgyblion i ganfod rhagor am astudio, gweithio a byw yn Ewrop a thu hwnt.

Ymysg y gweithdai y bu'r bobl ifainc yn cymryd rhan ynddynt roedd dawnsio Bollywood, blasu iaith Mandarin, Tai Chi, datrys problemau mewn Ffrangeg, cwis Ewropeaidd, gwirfoddoli yn Ewrop ac hefyd gyfarfod myfyriwr Erasmws i ddysgu am ei brofiad.
Yn ystod yr egwyliau anogwyd y disgyblion i fynd at stondinau arddangos i ateb cwestiynau a llofnodi eu pasportau. Rhoddodd hyn gyfle iddynt gasglu rhagor o wybodaeth am astudio a byw dramor a dysgu ieithoedd. Ymysg y stondinau arddangos roedd rhai gan Ewrop Uniongyrchol, Prifysgol Bangor a'r Cyngor Prydeinig.
Mae CILT yn gorff sy'n gweithio i annog ac ysbrydoli pobl o bob oedran i ddysgu ieithoedd newydd. Maent yn helpu i weithredu polisïau fydd yn gwella'r broses o ddysgu ac addysgu ieithoedd ac maent yn darparu cyngor annibynnol ar bob agwedd o ddysgu, addysgu a defnyddio iaith.

Mae Llwybrau at Ieithoedd yn rhaglen wedi'i hariannu i annog pobl i ddysgu ieithoedd ac mae wedi'i sefydlu mewn mannau lle bydd grwpiau o brifysgolion yn cydweithio, gydag ysgolion a cholegau, i ysbrydoli ac annog pobl i astudio ieithoedd. Mae rhwydweithiau cenedlaethol wedi'u sefydlu i hyrwyddo gyrfaoedd mewn cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd.

Y Gynhadledd Athrawon Cynradd

Yn ddiweddar aeth Ewrop Uniongyrchol Wrecsam a David Phoenix, sef Swyddog Cysylltiadau Rhyngwladol CBSW ati gyda chefnogaeth Swyddfa Gynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru, i drefnu cynhadledd athrawon i athrawon cynradd ledled Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych, yng Nghanolfan Catrin Finch, Prifysgol Glyndŵr.
Bwriad y digwyddiad oedd rhoi gwybodaeth i athrawon am bynciau megis sut i sefydlu partneriaethau ysgol, gwneud cais am grantiau i ddatblygu cysylltiadau gydag ysgolion yn Ewrop, yr hyn mae ESTYN yn ei ddisgwyl gan ysgolion, trefnu ymweliad â'r ysgol gan aelod o'r Senedd Ewropeaidd, cynnal diwrnodau Ewropeaidd, a chael gafael ar adnoddau rhad ac am ddim i helpu i ddysgu am Ewrop. Agorwyd y diwrnod gan Andy Klom, Pennaeth Swyddfa, Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru, ac yn dilyn hynny gyflwyniadau gan gyrff megis Cyngor Prydeinig Cymru, y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu (NGFL) ac Ewrop Uniongyrchol Wrecsam a Llangollen.
Yn y prynhawn, gallai'r athrawon siarad gyda'r cyflwynwyr i gael rhagor o fanylion am y gwasanaethau y maent yn eu cynnig. Roedd hyn hefyd yn gyfle i'r athrawon weld arferion gorau ysgolion eraill wrth ffurfio cysylltiadau Ewropeaidd a chymryd rhan mewn prosiectau.

Digwyddiadau yn y Dyfodol

Ffair Swyddi Wrecsam 10fed Mai 2011

Mae Llinellfusnes, sydd wedi'i seilio yn Llyfrgell Wrecsam, yn trefnu Ffair Swyddi gyda chefnogaeth Ewrop Uniongyrchol Wrecsam. Am fod y farchnad waith yn edrych mor llwm ar hyn o bryd i lawer o unigolion sydd allan o waith rhan amser / llawn amser neu heb fod mewn addysg, nod y digwyddiad yma yn y pen draw yw gwneud pobl yn fwy ymwybodol o'r cyfleoedd sydd i'w cael yn yr ardal leol i dderbyn hyfforddiant, i gael cefnogaeth ac i ganfod swyddi. Bydd y digwyddiad yn cynnwys stondinau masnach lle gall ceiswyr swyddi gael gafael ar wybodaeth a chyfle i fynychu cyfres o weithdai perthnasol fydd ar waith drwy gydol y dydd.
Bydd Ewrop Uniongyrchol Wrecsam ar gael hefyd ar y diwrnod i ddosbarthu gwybodaeth a defnydd cyhoeddusrwydd perthnasol i bobl sydd efallai'n chwilio am gyfleoedd yn Ewrop. Os byddwch angen rhagor o wybodaeth neu os hoffech fynd i'r digwyddiad hwn, cysylltwch â Llinellfusnes ar 01978 292092 neu ebostiwch businessline@wrexham.gov.uk

Wythnos Addysg Oedolion Mai 13eg 2011

Mae NIACE Dysgu Cymru'n cynnal nifer o ymgyrchoedd amlwg iawn i gynyddu'r galw am ddysgu a sgiliau yng Nghymru ac i ddathlu cyflawniadau dysgu nodedig. Maent hefyd yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a chyrsiau hyfforddi i gefnogi diddordebau oedolion sy'n dysgu mewn gwahanol gyd-destunau.
Drwy gydol yr wythnos bydd nifer o wahanol weithdai, digwyddiadau a seminarau ar waith o amgylch Wrecsam lle gall pobl ganfod rhagor am astudio pellach ac hefyd ddysgu sgiliau newydd.
Mae Ewrop Uniongyrchol wedi derbyn gwahoddiad i ddosbarthu Gwybodaeth Ewropeaidd yn rhad ac am ddim yn yr Ŵyl Addysg Oedolion.

Yr Eisteddfod Genedlaethol Gorffennaf-Awst 2011
Eleni mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam a bydd Ewrop Uniongyrchol Wrecsam a Llangollen yno drwy'r wythnos i ddosbarthu deunydd gwybodaeth Ewropeaidd ac i ateb unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

Yr Eisteddfod Ryngwladol, Llangollen Gorffennaf 2011
Bydd Ewrop Uniongyrchol Wrecsam a Llangollen i'w gweld drwy'r wythnos yn y digwyddiad blynyddol gwych yma i ateb ymholiadau gan y cyhoedd ac i ddosbarthu deunydd gwybodaeth am faterion yn ymwneud ag Ewrop.

Diwrnod Ieithoedd Ewrop Medi 27ain 2011
Unwaith eto bydd y digwyddiad hwn wedi'i drefnu i annog plant ifainc o Wrecsam a'r ardal i ddysgu ieithoedd er mwyn rhoi mwy o gyfleoedd iddynt yn y dyfodol. Ar y diwrnod bydd adroddwyr straeon a chwmni theatr yn cynnal gweithdai rhagorol drwy gydol y dydd.

Diwrnod Ewrop 2011 – Cynaliadwyedd i bawb! 20fed Mehefin 2011

Yn rhan o'r Ŵyl Golau Gwyrdd, mae Ewrop Uniongyrchol wedi trefnu Diwrnod Ewrop eleni a fydd wedi'i gynnal yn Techniquest, Prifysgol Glyndŵr ac a fydd yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd.

Mae gwahoddiad i Eco-bwyllgorau o ysgolion cynradd yn Wrecsam ddod draw i gymryd rhan mewn gweithdai yn ystod naill ai sesiynau'r bore neu'r prynhawn. Bydd y diwrnod yn cychwyn gyda 'Sioe Gynaliadwyedd' ryngweithiol hwyliog a fydd wedi'i rhedeg gan 'Scintillate'. Yna bydd y disgyblion wedi'u rhannu i wneud cylch o weithdai a fydd wedi'u cynnal gan Swyddog Addysg yr Amgylchedd, Caroline Pollitt, a Techniquest.

Mae Golau Gwyrdd yn brosiect gefeillio wedi'i ariannu gan y yngor Prydeinig sy'n cysylltu awdurdod lleol Wrecsam gydag awdurdod lleol Raciborz yng Ngwlad Pwyl.

Gadewch i Ni Wirfoddoli! - Ffair Wirfoddoli

Mae Ewrop Uniongyrchol Wrecsam a Llangollen yn trefnu Ffair Wirfoddoli yng Nghanolfan Edward Llwyd, Prifysgol Glyndŵr, Mai 19eg 2011, 10-3pm.

Mae'r flwyddyn hon wedi'i phennu'n Flwyddyn Wirfoddoli Ewropeaidd, i ddathlu trydedd rhan o boblogaeth Ewrop sy'n gwirfoddoli'n barod ac hefyd i annog pobl eraill i wneud hynny.

Mae Gadewch i ni Wirfoddoli! yn ddigwyddiad rhad ac am ddim sy'n agored i'r cyhoedd i gyd, ac sy'n cynnig cyfle i chi gyfarfod mwy na 25 o gyrff gwirfoddoli ledled Wrecsam. Sir y Fflint, Sir Ddinbych ac Ewrop a chanfod sut y gallwch chi gyfranogi mewn gwaith gwirfoddol. Mae hon yn ffordd wych o roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned yn ogystal ag ychwanegu at eich CV.

Teithio yn Ewrop

Mae'r **Undeb Ewropeaidd** yn ymestyn dros gyfandir Ewrop o'r Lapdir yn y gogledd i Fôr y Canoldir, ac o arfordir gorllewinol Iwerddon i lannau Cyprus: brodwaith cyfoethog o dirweddau, o arfordiroedd creigiog i draethau euraidd, o borfa ffrwythlon i ddiffeithdir sych, o lynnoedd a fforestydd i dwndra arctig.
Mae pobl Ewrop wrth eu boddau'n teithio ac mae diddymu'r gofynion ffurfiol ar gyfer pasportau a phaciau wedi'i gwneud hi'n llawer haws teithio. Mae 17 o wledydd UE yn rhannu yr un arian, yr ewro (€), sy'n ei gwneud hi'n hawdd cymharu prisiau ac mae'n dileu cost ac anghyfleustra newid arian. Yn wir, mae'r mwyafrif o bobl Ewrop yn ei chael hi yr un mor hawdd teithio yn yr UE ag ydyw iddynt deithio yn eu gwledydd eu hunain.

Pasport neu gerdyn hunaniaeth i ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd

Cariwch y rhain wrth deithio yn yr UE oherwydd efallai y bydd angen i chi eu dangos i bwrpasau hunaniaeth neu ddiogelwch. Cofiwch mai'r unig ID dilys yw'r un a gewch gan awdurdodau cenedlaethol.

Fisa Ni fydd raid i chi gael fisa i deithio yn yr Undeb Ewropeaidd.

I ddinasyddion gwledydd nad ydynt yn yr Undeb Ewropeaidd

Pasport
Bydd angen pasport dilys arnoch.
Fisa Mae 39 o wledydd lle nad oes angen fisa ar eu pobl i ymweld â'r Undeb Ewropeaidd am dri mis neu lai. Mae'r rhain yn cynnwys Awstralia, Canada, Croatia, Japan, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau. Mae'r rhestr o wledydd lle mae angen fisa ar eu gwladolion i deithio i'r Deyrnas Unedig neu Iwerddon ychydig yn wahanol i wledydd eraill yn yr Undeb Ewropeaidd.

Y Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC)

Os byddwch yn mynd i Ardal Economaidd Ewropeaidd arall ar daith fusnes neu hamdden, byddwch angen Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd i dderbyn gofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth os daw hynny'n angenrheidiol yn ystod eich ymweliad. Byddwch yn derbyn triniaeth am gost is neu weithiau mae'n rhad ac am ddim hyd yn oed. Y ffordd gyflymaf o gael EHIC, sy'n rhad ac am ddim, yw gwneud cais ar-lein ar www.dh.gov.uk/travellers.

Dydy'r Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd ddim yn cymryd lle yswiriant teithio oherwydd efallai na fydd yn talu'r holl gostau iechyd ac nid yw'n talu costau dychweliad nag achub ar y mynydd. Felly efallai y byddwch eisiau cymryd yswiriant teithio ar wahân i'ch diogelu rhag y risgiau hynny.

Arian Parod a Chardiau

Diolch i reolau'r UE, mae tynnu ewros o beiriant arian yn costio yr un faint i chi mewn unrhyw ran o'r UE ag y mae yn eich gwlad eich hun o beiriant arian nad yw'n perthyn i'ch banc. Mae'r ffi am wneud taliad ar gerdyn debyd neu gredyd yn yr UE mewn ewros yr un fath ag ydyw yn eich gwlad eich hun. Wrth gwrs gallai'r ffioedd wahaniaethu rhwng banciau

Hawliau teithwyr

A gawsoch eich gwrthod rhag mynd ar long neu awyren? A gafodd eich taith ei chanslo? Oedd gohiriad hir? A gollwyd eich bagiau? Oedd rhywbeth yn eich rhwystro rhag symud ddigon ar eich taith? Mae angen i deithwyr gael cyfres gyffredin o egwyddorion fel ei bod hi'n haws iddynt wybod beth yw eu hawliau os bydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda'u trip. Dylai'r egwyddorion cyffredin yma fod yn berthnasol beth bynnag yw'r dull teithio a ph'un a yw'r daith gyfan yn digwydd mewn un Aelod-wladwriaeth neu a ydyw'n mynd trwy ffin allanol.

Gallwch ganfod rhagor am hawliau teithwyr ar www.ec.europa.eu/transport/passenger-rights

Canfod y Rhif Argyfwng Ewropeaidd (112)

Dychmygwch eich bod yn ymweld â gwlad yn yr UE neu eich bod gartref ac mae angen i chi alw ambiwlans, y frigâd dân neu'r heddlu. Fyddech chi'n gwybod pa rif argyfwng i'w alw?
Am fod pobl Ewropeaidd yn teithio fwy a mwy ar deithiau busnes neu hamdden, gallai miliynau o bobl wynebu'r broblem hon. Yn ffodus, does dim angen chwilio am y rhifau argyfwng a'u cofio ar gyfer pob gwlad yr ydych yn ymweld â hi yn yr UE. Cofiwch y rhif 112 ac fe fyddwch chi'n iawn!.
112 yw'r rhif argyfwng Ewropeaidd, y gallwch ei gyrraedd o ffonau sefydlog a symudol, yn rhad ac am ddim, ym mhobman yn yr UE.

Crwydro Symudol

Mabwysiadwyd rheol Crwydro'r UE yn 2007 a chyflwynwyd capiau ar brisiau crwydro ('Ewrodariff') a roddodd oblygiadau gwybodaeth penodol ar gwmnïau ffôn, gan sicrhau bod tanysgrifwyr ffonau symudol yn talu prisiau crwydro fforddiadwy a chlir pan fyddent yn teithio ar draws yr UE.
Mae'r Ewrodariff yn gosod uchafbris am alwadau ffôn a wneir ac a dderbynir tra byddwch dramor.
Mae'r uchafbrisiau hyn yn berthnasol i bob defnyddiwr heblaw rhai sydd wedi dewis pecynnau arbennig a gynigir gan gwmnïau ffôn. Ym mis Gorffennaf 2009, mabwysiadwyd rheolau newydd oed dyn gostwng prisiau crwydro galwadau llais ymhellach a chyflwynwyd capiau newydd ar dariffau SMS ("Tariff SMS Ewro").
Hefyd, o 1 Gorffennaf 2010, caiff defnyddwyr eu hamddiffyn yn awtomatig rhag unrhyw frawiau oherwydd biliau crwydro am alwadau data.

Diwrnod Ewrop Mai 9fed



Mae'n debyg mai ychydig iawn o bobl Ewrop sy'n gwybod bod y cam cyntaf wedi'i gymryd ar Fai 9 1950 i greu yr hyn a adwaenwn erbyn hyn yn Undeb Ewropeaidd.

Ym Mharis y diwrnod hwnnw, gyda chwmwl bygythiad Trydydd Rhyfel Byd yn dywyll dros Ewrop gyfan, darllenodd Gweinidog Tramor Ffrainc, Robert Schuman, ddatganiad i'r wasg ryngwladol yn galw ar Ffrainc, yr Almaen a gwledydd Ewropeaidd eraill i ddod â'u cynnyrch glo a dur at ei gilydd fel "sylfaen bendant gyntaf ar gyfer ffederasiwn Ewropeaidd". Y farn yw mai'r cynnig hwn, a elwir yn "ddatganiad Schuman" oedd y cam cyntaf yn y broses o greu'r hyn a elwir yn awr yn Undeb Ewropeaidd.

Yr hyn roedd yn ei gynnig oedd creu Sefydliad Ewropeaidd uwchgenedlaethol fyddai'n gyfrifol am reoli'r diwydiant glo a dur, yr union sector a oedd, ar y pryd, yn sail i'r holl bŵer milwrol. Roedd y gwledydd y galwodd arnynt bron wedi'u dinistrio ei gilydd mewn gwrthdaro ofnadwy oedd wedi gadael teimlad o ddifrod moesol a materol ar ei ôl.
Felly, cychwynnodd popeth y diwrnod hwnnw. Dyma pam y penderfynwyd, yn ystod Uwch-gynhadledd Milan o arweinwyr yr UE yn 1985, y dylid dathlu Mai 9 fel "Diwrnod Ewrop".
Mae pob gwlad sy'n dewis yn ddemocrataidd i gytuno i'r Undeb Ewropeaidd yn cefnogi ei werthoedd sylfaenol o heddwch ac undod.
Mae'r gwerthoedd hyn wedi'u mynegi drwy ddatblygiad economaidd a chymdeithasol sy'n croesawu dimensiynau rhanbarthol ac amgylcheddol sy'n gwarantu safon dda o fyw i'r dinasyddion i gyd.
Er bod Ewrop fel y mae wedi bodoli ers canrifoedd, mae'r elfennau a'i unodd, heb unrhyw reolau a sefydliadau, wedi bod yn annigonol yn y gorffennol i atal y trasiedïau mwyaf ofnadwy.
Ni fydd cyfuno Ewrop yn digwydd mewn diwrnod neu hyd yn oed mewn ychydig ddegawdau. Mae diffygion niferus yn bodoli o hyd ac mae elfennau amherffaith yn amlwg, Mae'r prosiect a gychwynnwyd yn union ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn dal i fod yn newydd iawn. Yn y gorffennol, roedd ymdrechion yn yr Undeb Ewropeaidd wedi'u seilio ar ddominyddiaeth un grŵp dros un arall. Ni allai'r ceisiadau hyn barhau oherwydd dim ond un uchelgais oedd gan y rheiny a drechwyd, sef adfer eu rhyddid.

Y Senedd Ewropeaidd

.**Mae'r Senedd Ewropeaidd yn cynrychioli dinasyddion Ewrop.** Mae'n fan lle cynhelir dadleuon gwleidyddol bywiog. Ers yr etholiadau cyntaf yn 1979, mae wedi mynd o nerth i nerth o ran ennill pwerau seneddol, yn arbennig fel cyd-ddeddfwr ac awdurdod cyllidebol. Mae'r senedd yn gweithredu'r pwerau hyn er budd a mantais dinasyddion Ewrop ac i siapio ein dyfodol cyffredin.

Y Senedd Ewropeaidd yw'r unig gynulliad seneddol amlgenedlaethol yn y byd sydd wedi'i ethol drwy bleidlais gyffredinol ac, ers Mehefin 1979, hi yw unig sefydliad yr Undeb Ewropeaidd a etholir yn uniongyrchol. Cynhelir etholiadau bob pum mlynedd ac mae'r nifer o Aelodau wedi cynyddu yn unol â helaethiad olynol yr UE. Yn 2007, roedd gan y Senedd 785 o Aelodau o 27 o wledydd, yn eistedd mewn grwpiau a ffurfiwyd ar sail tadogaeth wleidyddol yn hytrach na chenedligrwydd. Roedd yr etholiad a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2009 yn marcio 30fed pen-blwydd etholiadau Ewropeaidd drwy bleidlais gyffredinol.
Mae sedd swyddogol y Senedd Ewropeaidd yn Strasbourg ar y ffin rhwng Ffrainc a'r Almaen, lleoliad sy'n symbol o gymodiad yn Ewrop yn dilyn dau ryfel byd. Yn ôl yr hyn a benderfynwyd gan aelod-wladwriaethau'r UE, mae'r Senedd yn cynnal 12 sesiwn lawn bob blwyddyn yn Strasbourg. Mae ei phwyllgorau'n cyfarfod ym Mrwsel, lle cynhelir sesiynau llawn ychwanegol hefyd. Mae'r dadleuon yn siambr y Senedd yn digwydd ymhob un o ieithoedd swyddogol yr UE, gan adlewyrchu ei hymrwymiad i Undeb amrywiol ac amlddiwylliannol sydd wedi'i "uno mewn amrywiaeth".

Rôl sy'n gynyddol bwysig
Ers 1979 mae cytundebau Ewropeaidd olynol wedi cynyddu pwerau'r Senedd Ewropeaidd. Mae'n cario yr un pwysau â'r Cyngor erbyn hyn (yn cynrychioli llywodraethau'r UE) wrth ddrafftio cyllideb yr UE a deddfau sydd wedi'u llunio i hwyluso symudiad pobl, nwyddau, gwasanaethau a chyfalaf yn yr UE neu i amddiffyn yr amgylchedd a defnyddwyr. Mae ganddo hefyd y pŵer i gymeradwyo a diswyddo'r Comisiwn Ewropeaidd.

Gall dinasyddion ddeisebu'r Senedd gyda cheisiadau neu gwynion yn ymwneud â gweithredu deddf Ewropeaidd. Mae aelodau'r Senedd Ewropeaidd yn ethol Ombwdsmon Ewropeaidd sy'n ymchwilio cwynion dinasyddion yn erbyn yr UE am gamweinyddiaeth. Gallent sefydlu pwyllgor ymholiad os ydynt yn credu bod cyfraith yr UE wedi'i thorri.

Yn rhyngwladol, mae'r Senedd yn cyfranogi ym mholisi tramor yr UE. Mae angen ei chydsyniad ar gyfer unrhyw gytundeb rhyngwladol y mae'r UE yn ei lofnodi yn ogystal ag unrhyw helaethiad i'r UE. Mae'n dadlau materion hawliau dynol yn rheolaidd ac yn anfon arsyllwyr o amgylch y byd i wirio bod etholiadau'n cael eu gweithredu'n deg ac yn rhydd.
Mae'r adolygiad diweddaraf o'r cytundebau, y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd a gynhaliwyd yn Lisbon ym mis Rhagfyr 2007, yn cynyddu pwerau'r Senedd ymhellach mewn nifer o feysydd.

I ganfod rhagor am y Senedd Ewropeaidd:
Europarltv, www.europarltv.europa.eu

Ewrop i ferched

Yn lachach gyda'n Gilydd yn yr Undeb Ewropeaidd

Deddfau'r UE ar gydraddoldeb
Roedd triniaeth gyfartal i ferched a dynion yn un o egwyddorion sylfaenol yr UE yn 1957, pan gofnododd Cytundeb Rhufain egwyddor cyflog cyfartal. Ers yr 1970au mae cyfreithiau Ewrop a deddfau cenedlaethol wedi ehangu dewisiadau merched ac wedi gwella eu bywydau. Mae'r gyfran o ferched sydd mewn swydd wedi cynyddu'n raddol ac, ers y flwyddyn 2000, mae gweithwyr sy'n ferched wedi cymryd tri chwarter y miliynau o swyddi newydd a gynhyrchwyd yn Ewrop. Erbyn hyn mae merched yn gwneud yn well na bechgyn yn yr ysgol, ac yn cyfrif am 59% o raddedigion prifysgol yn yr UE.

Fodd bynnag, mae merched yn dal i ennill 17% yn llai na dynion mewn cyflog, ac yn parhau'n lleiafrif mewn swyddi rheoli uwch ac mewn prosesau gwneud penderfyniadau gwleidyddol.
Felly, mae'r UE yn cyflymu'r gweithredu i ddiddymu gwahaniaethu a sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Mae'r prif amcanion yn cynnwys diddymu stereoteipiau a sicrhau annibyniaeth economaidd i ferched fel eu bod yn gallu gweithio, ennill eu hincwm eu hunain a hawlio buddion cyfartal.
Hefyd mae'r UE wedi sefydlu rhwydwaith o ferched mewn prosesau gwneud penderfyniadau i gyflymu mynediad merched at bwer, ac mae'n sefydlu Sefydliad Ewropeaidd dros Gydraddoldeb y Rhywiau.

Diogelu merched rhag trais
Eto yn Ewrop mae llawer o ferched, yn hen ac ifanc, yn dal i fyw dan gysgod trais neu gamfanteisio, Efallai eu bod yn dioddef trais domestig neu gamdriniaeth rhywiol, masnachu mewn pobl a phuteindra wedi'i orfodi, neu frawychiad a gormes – sy'n torri ar eu hawliau sylfaenol i fwynhau rhyddid, urddas a diogelwch.
Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cynnal rhaglen o'r enw Daphne sy'n diogelu merched, plant a phobl ifainc rhag pob ffurf o drais. Mae'n talu am brosiectau megis llochesi merched a chyfleusterau iechyd, yn ogystal ag ymdrechion i newid agweddau ac amddiffyn merched mewn grwpiau o ymfudwyr a lleiafrifoedd ethnig.

Pan fo'r ferch yn fos
Ledled Ewrop, mae llawer mwy o ddynion na merched yn rhedeg eu busnesau eu hunain ac yn rheoli cwmnïau. Mae 8% o weithlu'r merched yn entrepreneuriaid, o'i gymharu â 16% o ddynion. Yn aml iawn mae merched yn wynebu mwy o broblemau wrth geisio cael gafael ar arian a lansio ac ehangu eu busnesau bach eu hunain: mae ffigurau diweddar yn dangos bod dynion dair gwaith yn fwy tebygol o fod yn hunangyflogedig gyda'u staff eu hunain na merched.
Mae'r UE yn credu bod doniau entrepreneuraidd yn gallu hybu ffyniant Ewrop ac, ers yr 1980au, mae wedi bod yn rhoi cefnogaeth ymarferol i ferched sydd eisiau sefydlu eu busnesau eu hunain.

Bwyta'n well, ymarfer mwy – gorchfygu gordewdra
Mae mwy na biliwn o oedolion sydd dros bwysau o amgylch y byd, ac o'r rhain mae 300 miliwn yn ordew. Yn yr UE yn unig, amcangyfrifir bod mwy na 200 miliwn o oedolion dros bwysau neu'n ordew – mae hynny dros hanner y boblogaeth oedolion. A, chyn belled ag y mae plant Ewrop yn y cwestiwn, mae chwarter dros bwysau neu'n ordew erbyn hyn ac mae'r ffigur yma'n tyfu o 400,000 bob blwyddyn

Mae braster yn afiach
Mae'r ffenomenon gordewdra'n gyfrifol am gyfres o broblemau iechyd meddwl a chorfforol difrifol iawn, yn amrywio o glefyd y galon, diabetes a chanser i anffrwythlondeb ac anhwylderau seicolegol. Amcangyfrifir bod gordewdra'n gyfrifol am hyd at 7% o gostau gofal iechyd yr UE. Ar ben hynny, dylid ystyried hefyd y costau ehangach i'r economi, oherwydd cynhyrchiant is a marwolaeth cyn amser.

Newidiadau positif er mwyn byw'n iachach
Mae arferion maeth wedi newid yn sylweddol dros y degawdau diwethaf – mae pobl yn bwyta tua 500 yn fwy o galorïau bob dydd nag oeddent 40 mlynedd yn ôl. Cyfunwch hyn gyda diffyg ymarfer corff a dydy hi ddim yn syndod bod lefelau gordewdra'n codi – mae dinasyddion yr UE yn treulio mwy na 5 awr y dydd ar gyfartaledd yn eistedd i lawr ac mae mwy nag un ymhob tri yn gwneud dim ymarfer corff yn eu hamser hamdden!
I ymdrin â'r epidemig gordewdra mae'n rhaid i awdurdodau a diwydiant weithredu ac mae'n rhaid i unigolion wneud ymdrech bersonol i fabwysiadu dulliau iachach o fyw.

Gwella Labeli Bwyd
Ym mis Mai 2006, cymeradwyodd y Senedd Ewropeaidd reolau newydd ar gyfer yr UE cyfan yn ymwneud â honiadau maeth ac iechyd a rheol newydd am fwydydd cyfnerthedig. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn sicrhau bod defnyddwyr yn gallu dibynnu ar labeli bwyd i gael gwybodaeth gywir am werth maethol ac iechyd y bwyd. Mae honiadau iechyd megis "yn dda i'r galon" yn gorfod cael eu profi'n wyddonol ac nid yw'n bosib rhoi honiad positif am iechyd ar gynnyrch sy'n cynnwys gormod o halen, fraster neu siwgr.

Annog gweithredu gwirfoddol gan brif chwaraewyr yr UE
Ym mis Mawrth 2005, sefydlodd yr UE y Llwyfan i Weithredu ar Ddiet, Gweithredu Corfforol ac Iechyd, gan dynnu at ei gilydd gyrff defnyddwyr, Cyrff Anllywodraethol (NGO) a chynrychiolwyr diwydiant ar lefel yr UE i ymdrin â phroblem gordewdra'r UE. Yn ei flwyddyn gyntaf, sbardunwyd 100 o weithrediadau gwirfoddol newydd gan 34 o weithredwyr Ewropeaidd allweddol o gymdeithas sifil a diwydiant i ddarparu gwybodaeth i gwsmeriaid ar gynnwys maethol eu prydau bwyd, gan gynnwys gwaharddiad gwirfoddol gan yr Undeb Cymdeithasau Diodydd Ewropeaidd ar hysbysebion sy'n targedu plant, a llw gan aelodau'r Gymdeithas Bwytai Modern Ewropeaidd.

Cyhoeddir y daflen newyddion hon gan:
Europe Direct
Llyfrgell Wrecsam
Ffordd Rhosddu
Wrecsam, LL11 1AU
Ffôn: 01978 292090
Ffacs: 01978 292611
Ebost: europedirect@wrexham.gov.uk